# Canllaw ar y Peiriannau Ocsigen




baywater HEALTHCARE

NHS
Providing NHS services

# Cynnwys


Dod i Adnabod Rhannau o'ch Peiriant Ocsigen **3**

Peiriannau Ocsigen **14**


Ad-daliadau Trydan **17**

Tiwbiau Ocsigen wedi'u Hatodi **18**

Eich Silindr Argyfwng **20**

Datrys Problemau **25**







ENHANCING LIVES

# Dod i Adnabod Rhannau o'ch Peiriant Ocsigen

## AirSep Newlife Elite

**Ystod llif safonol:** 1–5 lpm
**Ystod llif isel:** 0.1–2 lpm
**Ystod llif uchel:** 2–8 lpm




**A** Switsh On/Off
**B** Ailosod y torrwr cylched
**C** Mesurydd awr
**D** Mesurydd llif/deial addasu
**E** Handlen
**F** Allfa ocsigen
**G** Golau'r dangosydd
**H** Hidlydd
**I** Cordyn pŵer

(ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)

## AirSep Visionaire 3


**Ystod llif:** 0.5–3 lpm




**A** Mesurydd llif/deial addasu
**B** Handlen
**C** Allfa ocsigen
**D** Mesurydd awr
**E** Ailosod y torrwr cylched
**F** Switsh On/Off
**G** Golau'r dangosydd
**H** Cordyn pŵer

## Nidek Nuvo Lite 3


**Ystod llif:** 0.125–3 lpm




**A** Mesurydd llif/deial addasu
**B** Handlen
**C** Allfa ocsigen
**D** Switsh On/Off
**E** Ailosod y torrwr cylched
**F** Mesurydd awr
**G** Hidlydd
**H** Cordyn pŵer

## Nidek Nuvo Lite 5


**Ystod llif:** 0.125–5 lpm




**A** Mesurydd llif/deial addasu
**B** Handlen
**C** Allfa ocsigen
**D** Switsh On/Off
**E** Ailosod y torrwr cylched
**F** Mesurydd awr
**G** Hidlydd
**H** Cordyn pŵer

## Nidek Nuvo 8


**Ystod llif:** 2–8 lpm




**A** Mesurydd llif/deial addasu
**B** Handlen
**C** Allfa ocsigen
**D** Switsh On/Off
**E** Ailosod y torrwr cylched
**F** Mesurydd awr (y tu ôl i'r hidlydd)
**G** Hidlydd
**H** Cordyn pŵer

## Nidek Nuvo 10


**Ystod llif:** 2–10 lpm




**A** Mesurydd llif/deial addasu
**B** Handlen
**C** Allfa ocsigen
**D** Switsh On/Off
**E** Ailosod y torrwr cylched
**F** Mesurydd awr (y tu ôl i'r hidlydd)
**G** Hidlydd
**H** Cordyn pŵer

## EverFlo

**Ystod llif safonol:** 1–5 lpm
**Ystod llif isel:** 0.1–1 lpm




**A** Handlen cario
**B** Switsh On/Off
**C** Allfa ocsigen
**D** Cordyn pŵer
**E** Mesurydd llif
**F** Rheoli llif
**G** Goleuadau'r dangosydd larwm



**Rhybudd**
Peidiwch byth â throi'r gyfradd llif i fwy nag 1 lpm ar y model llif isel. Os yw'r bêl uwchben y llinell 1 lpm, trowch y llif yn ôl i lawr i'r gyfradd llif benodedig.

## Respironics Millennium M5

**Ystod llif:** 0.1–1 lpm




**A** Mesurydd llif/deial addasu
**B** Handlen
**C** Allfa ocsigen
**D** Goleuadau'r dangosydd
**E** Switsh On/Off
**F** Mesurydd awr
**G** Hidlydd
**H** Cordyn pŵer

## DeVilbiss

**Ystod llif:** 0.5–5 lpm




**A** Goleuadau'r dangosydd
**B** Handlen
**C** Switsh On/Off
**D** Mesurydd llif/deial addasu
**E** Ailosod y torrwr cylched
**F** Allfa ocsigen
**G** Mesurydd awr
**H** Hidlydd
**I** Cordyn pŵer

(ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)

## DeVilbiss 10

**Ystod llif:** 2–10 lpm




**A** Goleuadau'r dangosydd
**B** Handlen
**C** Switsh On/Off
**D** Mesurydd llif/deial addasu
**E** Ailosod y torrwr cylched
**F** Allfa ocsigen
**G** Mesurydd awr
**H** Hidlydd
**I** Cordyn pŵer

## Krober

**Ystod llif:** 0.1-6 lpm




**A** Handlen cario
**B** Allfa ocsigen
**C** Cordyn pŵer
**D** Hidlydd llwch
**E** Switsh On/Off
**F** Sgrin arddangos
**G** Rheoli llif a botwm tewi’r larwm
**H** Golau dim pŵer trydan
**I** Fflap gwasanaethu

(ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)

## BMC

**Ystod llif:** 0.5–5 lpm




**A** Allfa ocsigen
**B** Amser rhedeg
**C** Goleuadau’r dangosydd
**D** Handlen
**E** Mesurydd llif/deial addasu
**F** Hidlydd
**G** Switsh On/Off
**H** Ailosod y torrwr cylched
**I** Cordyn pŵer



(ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)

# Peiriannau Ocsigen

Mae peiriannau ocsigen wedi'u dylunio i'w defnyddio yn y cartref.

Mae'n bosibl y byddwch yn cael peiriant ocsigen penodol oherwydd cyfradd llif yr ocsigen rydych chi wedi'i harchebu.

Bydd y peiriant yn gwneud sŵn mwmian pan fydd yn cael ei ddefnyddio – sŵn tebyg i oergell.

Bydd eich peiriant ocsigen yn mynd yn gynnes wrth redeg, ond ni ddylai fynd yn rhy boeth i'w gyffwrdd.

Sylwch: Mae eich peiriant ocsigen yn eiddo i Baywater Healthcare, ac ar fenthyg i'r GIG




## Sut i ddefnyddio'r peiriant ocsigen



Gwnewch yn siŵr bod y peiriant ocsigen wedi'i blygio i mewn i soced, a bod y soced ymlaen (llun A).

Peidiwch â rhoi peiriannau ocsigen mewn soced wal diffygiol a, lle bynnag y bo modd, tynnwch y plwg o'r peiriannau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.



Pwyswch y switsh On/Off i droi'r peiriant ocsigen ymlaen. I ddiffodd y peiriant ocsigen, pwyswch y switsh On/Off (llun B).

Bydd y Technegydd Gofal Iechyd yn gosod y peiriant ocsigen yn ôl eich cyfradd llif rydych chi wedi'i harchebu. Dim ond os bydd eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol yn argymell newidiadau i'r gosodiad hwn y dylid gwneud hynny.

Os bydd y golau'n fflachio, neu os oes modd clywed y larwm, defnyddiwch eich silindr argyfwng a ffoniwch Baywater Healthcare.

Mae angen gosod peiriannau ocsigen mewn man lle mae modd clywed larymau. Ffoniwch ni os nad ydych chi'n gallu clywed y larymau.

## Cymorth ychwanegol

Os mae'r claf syn defnyddio y'r offer ocsigen methu dweud wrthych ei fod nhw yn anghyffoddus, yfallai bydd hangen monitro ychwanegol arnyn nhw.

Os ydych chi neu rywyn rydych chi'n gofalu amdano yn cael problemau golwg neu clyw, efallai chi neu bydd nhw angen help ychwanegol gyda'r offer ocsigen.

(ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)

## Glanhau'r peiriant ocsigen

Glanhau'r peiriant ocsigen gyda llian glân laith.

Os oes gan eich peiriant hidlydd y gallwch ei weld, golchwch ef unwaith yr wythnos mewn dŵr cynnes â sebon a gadewch iddo sychu yn yr aer. Rhowch eich hidlydd sbâr yn y peiriant. Ffoniwch ni os gwelwch yn dda os nad oes gennych hidlydd sbâr. Gallwch hefyd lanhau'r hidlydd gyda'ch sugnwr llwch.

Os nad oes gan eich peiriant hidlydd y gallwch ei weld, sugniwch y gril plastig. Peidiwch â thynnu'r gril plastig.

## Gwasanaethu

Bydd ein Technegydd Gofal Iechyd yn dod i wasanaethu eich peiriant ocsigen ar ôl tri mis. Bydd y Technegydd wedyn yn gwasanaethu'r peiriant ocsigen bob chwe mis.

## Beth ddylid ac na ddylid ei wneud

### Beth ddylid ei wneud

- Trowch eich peiriant ocsigen i ffwrdd bob amser pan nad ydych chi'n ei ddefnyddio
- Cadwch eich peiriant ocsigen yn glir oddi wrth ddodrefn meddal, gan gynnwys soffas a llenni
- Cadwch dortsh gerllaw os bydd toriad trydan
- Cadwch y peiriant ocsigen ar i fyny
- Gwnewch yn siŵr bod y gyfradd llif ar y gosodiad y gwnaethoch chi ei archebu gan eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol

### Beth na ddylid ei wneud

- Peidiwch â mynd yn rhy agos at fflamau wrth ddefnyddio ocsigen, a chadwch bellter diogel o dri metr
- Peidiwch â defnyddio hufennau neu elïau olew wrth ddefnyddio eich ocsigen
- Peidiwch â defnyddio cebl pŵer estynedig
- Peidiwch â chyfyngu ar y llif aer o amgylch y peiriant ocsigen

# Ad-daliadau Trydan

Pan fydd ein Technegydd Gofal Iechyd yn dod i wasanaethu eich offer, bydd darlleniad mesurydd trydan yn cael ei gymryd o'ch peiriant. Bydd y GIG yn talu am unrhyw drydan y mae eich peiriant ocsigen wedi'i ddefnyddio. Sylwch y gallai'r taliad hwn amrywio rhywfaint o'r tariff y mae eich darparwr trydan yn ei godi. Rhwng y gwaith o wasanaethu eich peiriant, byddwch chi'n cael amcangyfrif o daliad yn seiliedig ar y taliad blaenorol a wnaed.


Er mwyn sicrhau eich bod yn cael eich talu am eich trydan, bydd angen i chi alluogi'n Technegwyr Gofal Iechyd i gael mynediad at eich eiddo i wasanaethu'r cyfarpar ocsigen.

Byddwch chi'n cael taliad bob tri mis. Bydd datganiad yn cael ei bostio atoch, a fydd yn dangos faint o arian y byddwch chi'n ei gael. Bydd eich taliadau'n cael eu gwneud i'ch cyfrif banc.

Os oes gennych chi gyflwr iechyd hirdymor a'ch bod yn defnyddio mesurydd trydan talu ymlaen llaw, trafodwch hyn gyda'ch Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol.

## Optio Allan

Os ydych chi am ddewis I peidio â derbyn taliadau ad-daliad trydan, rhowch wybod i'n Technegydd Gofal Iechyd os gwelwch yn dda neu cysylltwch â'n Llinell Gymorth Gofal Iechyd ar 0800 373580.




(ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)

# Tiwb ocsigen wedi'i osod

Mae'n bosibl y byddwch chi am gael gosod eich tiwb. Mae hyn yn golygu cysylltu tiwbiau plastig clir (diamedr 5mm) o'r peiriant ocsigen â phwyntiau o amgylch eich cartref. Mae hyn yn eich galluogi chi i gael ocsigen mewn gwahanol ystafelloedd heb orfod symud y peiriant ocsigen, gosod silindrau o amgylch eich cartref, na chael tiwbiau rhydd o amgylch y tŷ rhag ofn i chi faglu drostynt.

Drwy osod eich tiwbiau, mae hyn yn helpu i leihau'r risg o faglu a syrthio. Os bydd eich anghenion yn newid a'ch bod yn teimlo y byddai hyn yn briodol i chi, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni.



- Bydd ein Technegydd Gofal Iechyd Proffesiynol yn edrych i weld sut y bydd modd gosod tiwbiau yn eich cartref. Wedyn, bydd y Technegydd yn cael sgwrs gyda chi am y lleoliad gorau i roi eich peiriant ocsigen.






- Bydd blwch bach plastig gyda deial yn cael ei roi ar eich wal. Bydd hyn yn eich galluogi i droi eich ocsigen ymlaen yn yr ystafelloedd priodol.


- Bydd eich tiwbiau'n cael eu gosod ar hyd eich sgyrtin ac i mewn i fframiau drysau os bydd angen.

- Er diogelwch, bydd falfiau diogelu rhag tân yn cael eu gosod ar eich tiwbiau.
  **Peidiwch â thynnu'r rhain.**

- Bydd ein Technegydd Gofal Iechyd yn rhoi tiwbiau rhydd i chi gael eu symud o gwmpas y cartref, ac i chi gael defnyddio ystafelloedd eraill, fel yr ystafell ymolchi. Er mwyn gwneud yn siŵr eich bod chi'n ddiogel, byddwn yn gwneud yn siŵr nad yw'r tiwbiau'n cyrraedd y popty yn eich cegin.

- Bydd eich tiwbiau'n cael eu gosod gyda phigynnau trwynol neu fasgiau, yn dibynnu ar yr ocsigen rydych chi wedi'i archebu.

- Sylwch y gallai fod angen drilio twll bach (10mm) drwy eich waliau er mwyn i'ch tiwb ocsigen gyrraedd yr ystafelloedd priodol.



10mm

# Eich Silindr Argyfwng

## Sut mae defnyddio eich silindr argyfwng




Gwiriwch y mesurydd cynnwys i weld faint o ocsigen sy'n weddill




Gwiriwch nad yw'r dyddiad dod i ben wedi mynd heibio

**Wrth osod y silindr, dylai fod yn wynebu i ffwrdd oddi wrth eich corff cyn i chi ei droi ymlaen**



Cysylltwch y tiwb ocsigen â chysylltydd yr allfa neu'r mesurydd llif (dylai eich silindr argyfwng fod yn barod i'w ddefnyddio wrth ei osod)




Gosodwch y gyfradd llif ragnodedig ar y dewisydd llif, dylai hyn ddangos yn glir yn y ffenestr

**Rhybudd**
Mae modd defnyddio silindrau pan fyddant wedi'u gosod ar eu hochr, ond dylech chi eu diogelu bob amser drwy ddefnyddio'r lletem y byddwn ni'n ei ddarparu.

Enghreifftiau yw'r lluniau hyn.

## Ailarchebu eich silindr argyfwng

Dim ond os bydd toriad trydan, neu os bydd problem gyda'r peiriant, y dylech chi ddefnyddio eich silindr argyfwng. Ar ôl i chi ddechrau defnyddio'r silindr argyfwng, dylech chi ffonio ein Llinell Gymorth Gofal Iechyd i drefnu i'r silindr hwnnw gael ei newid.

Ffoniwch ni ar 0800 373580, rhwng 8.00am a 6.30pm bob dydd. Rydym ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys.

Os bydd eich silindr yn wag ac mai dyma eich unig ffynhonnell ocsigen, ffoniwch ni ac fe wnawn ni drefnu i ddanfon silindr arall atoch. Os nad yw'n ddiogel i chi aros am y silindr arall, rhaid i chi ffonio 999 a gofyn am ambiwlans.

Rhaid gwneud archebion yn ystod ein horiau swyddfa arferol. Dim ond galwadau brys fydd yn cael sylw y tu allan i'r oriau hyn.



(ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)

## Hyd silindrau argyfwng

Bydd digon o ocsigen argyfwng i bara am wyth awr o leiaf. Ar ôl i chi ddechrau defnyddio eich silindr argyfwng, dylech ffonio ein Llinell Gymorth Gofal Iechyd ar 0800 373580 er mwyn i ni allu trefnu i gael un arall yn ei le.

Mae'r tablau canlynol yn rhoi amcan o ba hyd mae eich silindr wrth gefn yn para.

### Hyd silindrau B10

| Cyfradd llif (lpm) | Hyd |
|---|---|
| 0.5 | 70 awr 44 munud |
| 1 | 35 awr 22 munud |
| 1.5 | 23 awr 34 munud |
| 2 | 17 awr 41 munud |
| 3 | 11 awr 47 munud |
| 4 | 8 awr 50 munud |
| 6 | 5 awr 53 munud |
| 8 | 4 awr 25 munud |
| 15 | 2 awr 21 munud |

**Rhybudd**
Gwnewch yn siŵr bod eich silindr wrth gefn yn cael ei gadw'n rhywle sy'n hawdd cael gafael arno mewn argyfwng.

Cofiwch, mae'n bosibl y bydd hi'n dywyll os bydd toriad trydan yn ystod y nos. Ystyriwch gadw tortsh wrth ymyl eich gwely.

### Silindr B10P gyda hyd mesurydd llif micro

| Cyfradd llif (lpm) | Hyd |
|---|---|
| 0.01 | 147 diwrnod |
| 0.02 | 73 diwrnod |
| 0.03 | 49 diwrnod |
| 0.04 | 36 diwrnod |
| 0.05 | 29 diwrnod |
| 0.06 | 24 diwrnod |
| 0.07 | 21 diwrnod |
| 0.08 | 18 diwrnod |
| 0.09 | 16 diwrnod |

**Gwnewch yn siŵr bod eich silindr wedi'i osod ar y botwm 'on' pan fydd mesurydd llif yn cael ei ddefnyddio**

### Silindr B10P gyda mesurydd llif isel

| Cyfradd llif (lpm) | Hyd |
|---|---|
| 0.1 | 14 diwrnod 16 awr |
| 0.15 | 9 diwrnod 19 awr |
| 0.2 | 7 diwrnod 8 awr |
| 0.25 | 5 diwrnod 21 awr |
| 0.3 | 4 diwrnod 21 awr |
| 0.35 | 4 diwrnod 4 awr |
| 0.4 | 3 diwrnod 16 awr |
| 0.5 | 70 awr |
| 0.6 | 60 awr |
| 0.7 | 50 awr |
| 0.8 | 44 awr |
| 0.9 | 39 awr |

## Pryd i ddefnyddio eich silindr argyfwng

Dylech chi newid i'ch silindr argyfwng os ydych chi'n credu bod eich cyflenwad ocsigen wedi methu, neu os ydych chi'n credu ei fod ar fin methu. Dyma'r rhesymau posibl y bydd hyn yn digwydd:

- Mae'r cyflenwad pŵer i mewn i'r peiriant ocsigen wedi methu
- Mae nam ar y peiriant ocsigen
- Mae'r tiwb yn gollwng

Dylech newid i'ch silindr argyfwng, a chysylltu â ni i weld a oes unrhyw broblemau ac i newid y silindr argyfwng rydych chi wedi bod yn ei ddefnyddio.

## Sut gallwch chi weld a ydych chi'n cael ocsigen

Mae'n bosibl na fyddwch chi'n gallu clywed na theimlo llif eich ocsigen, yn enwedig os ydych chi'n defnyddio cyfradd llif isel.

Gallwch chi wirio'r llif drwy wasgu blaenau'r pigynnau trwynol am ychydig eiliadau. Byddwch chi'n clywed neu'n teimlo'r gwasgedd yn rhyddhau.

Gallwch chi dynnu'r pigynnau trwynol neu'r masg a gwirio a oes swigod yn dod allan o ben y tiwb pan fyddwch mewn dŵr.

## Rhesymau posibl pam nad ydych chi'n cael ocsigen

- Mae'r addasydd ar y wal wedi'i droi ymlaen yn yr ystafell anghywir
- Mae'r tiwb wedi'i ddifrodi, wedi torri neu'n gollwng
- Mae'r tiwb yn sownd o dan ddodrefn neu wedi'i gau mewn drws
- Mae'r silindr argyfwng yn wag

Cofiwch, os nad yw'r peiriant ocsigen yn yr un ystafell, mae'n bosibl na fyddwch chi'n clywed unrhyw larymau'n dangos nam, ond mae'n dal yn bosibl i chi wirio'r llif yn eich pigynnau trwynol neu eich masg.

# Datrys problemau

## Beth i’w wneud os bydd larwm y peiriant ocsigen yn canu

Os bydd y larwm yn canu ar ôl i’r peiriant ocsigen gael ei droi ymlaen, ac os nad yw’r larwm yn stopio canu ar ôl ychydig eiliadau, gwnewch yn siŵr bod y soced trydan wedi’i droi ymlaen. Os yw’r soced wedi’i droi ymlaen, diffoddwch y peiriant ocsigen a’i droi ymlaen eto.





Os bydd larwm y peiriant ocsigen yn dal i ganu, gwnewch y canlynol:

- Gwneud yn siŵr nad yw’r hidlydd wedi blocio nac yn llychlyd
- Edrych ar y tiwbiau yr holl ffordd o’r peiriant ocsigen hyd at y pigynnau trwynol neu’r masg i wneud yn siŵr nad oes unrhyw beth yn pwyso arnynt a allai fod yn rhwystro llif yr ocsigen

**Os nad yw’r camau uchod yn datrys y broblem, ffoniwch ni i gael rhagor o arweiniad.**

(ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)




## Beth i'w wneud os nad oes ocsigen yn cael ei gynhyrchu

Os mai ychydig o ocsigen rydych chi'n ei ddefnyddio, mae'n bosibl y bydd yn teimlo fel nad oes ocsigen yn dod allan o'r peiriant.

Os nad ydych chi'n gallu teimlo ocsigen yn dod o'r pigynnau trwynol neu'r masg, gwnewch yn siŵr bod y llif yn gywir ar y peiriant ocsigen.

Os yw'r llif ar y peiriant ocsigen wedi'i osod ar sero ac os nad oes modd i chi ei droi i fyny, ffoniwch ni i gael rhagor o arweiniad.

Os yw'r gosodiadau llif yn gywir, gallwch chi dynnu'r pigynnau trwynol a rhoi'r tiwbiau mewn gwydraid o ddŵr i weld a oes swigod yn dangos. Os bydd swigod yn dangos, mae hyn yn golygu bod ocsigen yn cyrraedd y pigynnau trwynol neu'r masg. Os nad oes swigod yn dangos, edrychwch ar y tiwb ocsigen am dyllau neu rwyg.

**Os na allwch chi ddatrys y broblem, ffoniwch ni i gael rhagor o arweiniad.**

## Goleuadau ar beiriannau ocsigen

Os bydd goleuadau'n arddangos ar beiriannau ocsigen, mae'n bosibl bod nam ar y peiriant. Ffoniwch ni os yw eich peiriant ocsigen yn dangos y goleuadau isod, yn dibynnu ar y math o beiriant sydd gennych chi:

| | |
|---|---|
| **AirSep Elite/Intensity** | Golau ambr parhaus neu'n fflachio |
| **Visionaire 3** | Golau ambr parhaus neu'n fflachio |
| **Nidek 3,5 ac 8** | Golau coch neu ambr parhaus |
| **Nidek 10** | Golau ambr parhaus |
| **Everflo** | Golau ambr parhaus neu'n fflachio |
| **DeVilbiss** | Golau coch neu ambr parhaus |
| **Krober** | Golau coch yn fflachio |
| **Millennium M5** | Golau ambr yn fflachio, neu olau coch parhaus |



# Nodiadau

# Nodiadau




I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Baywater Healthcare**
Wulvern House
Electra Way
Crewe
Cheshire
CW1 6GW

Ffoniwch: 0800 373580

healthuk@baywater.co.uk
@BaywaterHealth
Baywater Healthcare
Baywater Healthcare

baywater HEALTHCARE

ENHANCING LIVES

This leaflet is also available in English

24/756/UK-MAR26 v3